**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 14 Mawrth, 2024**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Rhys Jones (Is-Gadeirydd)

Catherine Hughes

Phil Roberts

Wynne Davies

Gareth Roberts

Dafydd Ll Williams

Nia M Jones

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Cynghorydd Tesni Jones, Cynghorydd Einir Lewis a'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror**
Cadarnhawyd bod cofnodion 08/02/24 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Wynne Davies.

**Materion yn codi**
Nid oedd materion newydd yn codi.

**Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy**
Bu i ni dderbyn ebost gan Eleri yn nodi ei bod wedi cysylltu uniongyrchol gyda Zurich er mwyn cael pris yswiriant o £196.59 ar y Cae Chwarae yn Rhydyclafdy. Nodwyd i'r Pwyllgor lythyru'r Cyngor Cymuned i ofyn am gyfraniad ariannol tuag at y polisi yswiriant, cytunwyd y pwyllgor I dalu'r swm i gyd. Nid oedd unrhyw ddiweddariad arall o ran y Cynllun.

**Gohebiaeth**

**Gosod Plac/Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**
Trafodwyd ebost Haydn Jones (Clerc Cymuned Llannor) ynghlyn a gosod plac/cofeb ger Safle'r Eisteddfod.

Nodwyd bod angen i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Cynllunio ermwyn cael map o'r ffinoedd rhwng Cyngor Cymuned Buan a Chyngor Cymuned Llannor.

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn mynychu'r safle i dynnu llun o'r garreg a'i mhesur yn ystod y penwythnos 16/03-17/03. Cytunwyd y byddai'n gyrru'r lluniau i'r Clerc, fel y gallai hi eu gyrru mlaen i Haydn Jones, Clerc Cymuned Llannor.

Gan bod Wynne Davies wedi cynnig y garreg "gil bost" sydd yn ei feddiant ar gyfer y cynllun yma, hoffai pe byddai'r garreg yn aros ym Moduan, gan mai yma y bu i'r Eisteddfod gael ei chynnal.

Trafodwyd lleoli'r garreg, ac roedd pawb yn gytun i'w lleoli wrth ymyl y bocs AA, wrth ochr yr Eglwys ym Moduan. Roedd pawb yn gytun bod ei lleoli yma yn fan sâff, mewn lle diogel, lle bydda'i ceir yn gallu stopio ac ymweld a'r garreg.

Cytunwyd i ddefnyddio'r gwpled Iestyn Tyne sef "***Daeth ein prifwyl, gŵyl y gân, i dawel fro Boduan"*** ar y garreg.

Ar ddiwedd y Cynllun cynnigwyd y byddai'r Cynghorydd Sirol Annwen Davies a Iestyn Tyne yn cael tynnu eu llunia' wrth y garreg, a chynnwys y stori yn Llanw Llyn.

**Ymgyrch Apêl Eisteddfod Genedlaethol 2024**
Trafodwyd yr ymgyrch hwn a phenderfynwyd i beidio a chefnogi. Clerc i yrru neges iddynt i'w hysbysu.

**Ebost gan Gyngor Tref Pwllheli ynghlyn a safleoedd Ambiwlans Awyr yng N|ghymru**
Trafodwyd cynnwys yr ebost hwn a cytunwyd y byddai'r Clerc yn gyrru neges ymlaen iddynt i nodi y dylid parhau i gynnal y gwasanaeth fel ac y mae, ac i gadw yr un trefniant mewn lle. Nodwyd y pwysigrwydd bod wir angen y gwasanaeth yma arnom yn ardal mor wledig a Phenllyn.

**Ebost Clerc Cyngor Cymuned Pistyll – Hyfforddiant i Gynghorwyr**
Trafodwyd cynnwys ebost Clerc Cymuned Pistyll ynghlyn a'r hyfforddiant i Gynghorwyr. Bu i pawb gefnogi'r cais i'r hyfforddiant gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. NJ i hysbysu'r Clerc.

**Cais Cynllunio**

**Trafodwyd Rhif Cais : C24/0054/33/DT –** Carneddol, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd. LL53 7PT – Estyniad deulawr ac unllawr i gefn yr eiddo. Bu i'r Clerc edrych ar y portal Cynllunio a hefyd ffonio swyddog cynllunio - mae'r cais mewn statws "cais ar y gweill" a bydd yn cael sylw wedi'r dyddiad cau sef 27/03/24.

**Diweddariad Rhif Achos – G23/0281** – Sied fawr wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio. Nodwyd nad oes neb wedi gweld cais cynllunio yn cyfeirio at hyn. Bu i'r Clerc gysylltu gyda'r Adran Gynllunio yn gofyn am ddiweddariad i'r achos yma 06/03/24, a nodwyd bod Swyddog Cynllunio wedi bod allan a'r y Safle 29/02/24 yn cael golwg. Mae'r achos wedi'w basio rwan i Arwel Thomas, Swyddog Gorfodaeth i ymweld a'r safle.

**Materion ariannol**

Cysoniad banc o ddyddiad:
04/01/24 – 03/02/24 - £1,984.98c
04/02/24 – 03/03/24 - £1,625.87c

Cafodd 6 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Rhys Jones.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200786 | Siec Bacstal | £141.00 |
| Siec Rhif 200787 | Ad-dalu'r Clerc am lyfr stampiau | £12.00 |
| Siec Rhif 200788 | Costau Teithio'r Clerc | £6.30 |
| Siec Rhif 200789 | Cyflog y Clerc (Mis 12) | £153.60 |
| Siec Rhif 200790 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 12) | £38.40 |
| Siec Rhif 200791 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yn Twnti | £20.00 |

**Lightsource (Fferm Paneli Solar)**

Nodwyd bod y Clerc wedi cysylltu â Lightsource 12/03/24 er mwyn parhau i'w holi am y taliad. Cadarnhawyd bod y taliad yn disgwyl cael ei awdurdodi ganddynt a bydd gyda ni'n fuan.

**Cysoniad Banc Mawrth 2024**

Trafodwyd y cysoniad banc sydd angen ei wneud gan y Clerc ddiwedd Mis Mawrth 2024. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cwblhau'r dasg yma wedi iddi dderbyn y "statement banc" a chytunwyd y byddai DLLW yn bwrw golwg drosto er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn gywir.

**Unrhyw fater arall**

Trafodwyd y gwaith tendro ar gyfer Torri Gwell a chlirio mynwentydd am y flwyddyn 2024/2025. Nodwyd bod y Clerc wedi gyrru'r dogfennau i 5 Gwmni i dendro am y gwaith yma. Dyddiad cau'r tendr yw'r 1af o Ebrill, 2024. Bydd y tendrau yn cael eu 'hagor yn ystod cyfarfod 11/04/24.

Trafodwyd bod arwydd **BODUAN** wedi cael ei dynnu oddiar y bocs blodau sydd wedi ei leoli yn Pant Tacho. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu unwaith yn rhagor gyda'r Adran Briffyrdd yn gofyn am yr un newydd, ac i ofyn am ddiweddariad.

Nodwyd bod y twll hegar yn y lôn, wrth ddwad i mewn i bentref Rhydyclafdy o gyfeiriad Efailnewydd, wrth yr arwydd "20" wedi cael ei drwshio yn sydyn iawn. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i ddiolch am eu gwaith prydlon.

Nodwyd bod Phil wedi cysylltu gyda Ken Jones i drafod y gwaith concritio yn y maes parcio yn Rhydyclafdy, bydd y gwaith yma yn cael ei wneud yn mis Ebrill.

Nodwyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda "Unllais Cymru" ynghlyn a mater sydd gennym o wasanaeth rydym yn ei ddefnyddio, sydd ddim yn cyfnewid sieciau i mewn i'w cyfrif banc. Erbyn hyn mae yna wyth siec heb eu cyflwyno. Nodwyd "Unllais Cymru" bod angen cael sgwrs i'w hysbysu bod angen cyfnewid y sieciau hyn. Nodwyd os yw siec yn hyn na 6 mis oed, nid yw'n ddilys.

Trafodwyd Pont Sarn Glorian (ochr Bryncynan i'r Bont) a nodwyd bod Twll yn y lôn ac mae dŵr yn hel yn ofnadwy yno. NJ i adrodd hyn i'r Adran Briffyrdd er mwyn gofyn iddynt yrru archwiliwr allan ar safle.

Nodwyd bod twll hegar yn y ffordd, islaw'r Capel yn Rhydyclafdy. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

Nodwyd bod y gwterydd wedi blocio i'r top ger yr Hen Bost ym Moduan a phant Nant hefyd. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

Trafodwyd y gwaith o ail wynebu ffordd Tyddyn Cae ym Moduan. Bu canmoliaeth mawr i'r gwaith. Gofynnwyd y cwestiwn os oes bwriad i gario mlaen gyda'r gwaith o'r Efail i'r ffordd fawr. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd I'w holi.

Trafodwyd y pryder bod biniau ysbwriel yn cael eu cadw tu allan i dai ym Mhentre Rhydyclafdy am ddyddiau ar y tro, yn hytrach na' eu cadw'n syth ar ôl eu casgliad wythnosol. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a'r Rheolwr Gwastraff i ofyn pe byddai'n cylchredeg llythyr i'r tai i gyd ym Mhentref Rhydyclafdy yn gofyn iddynt gadw eu biniau ar ôl eu casgliad.

Gofynnwyd y Cadeirydd i gyfarfod Mis Ebrill gael ei gynnal fel ein "Cyfarfod Blynyddol". Gofynnwyd i'r Clerc nodi Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar yr agenda.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 11/04/24 yn Tu Hwnt i'r Afon am 7.30yh.